



Adroddiad ymgynghori

Nodyn cyngor pedwar ar ddeg: Llunio'r adroddiad ymgynghori

Yr Arolygiaeth Gynllunio a phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol

Sefydlwyd y broses gynllunio ar gyfer ymdrin â chynigion ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan Ddeddf Cynllunio 2008 ('Deddf 2008'). Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae proses Deddf 2008 yn golygu archwilio buddion ac effeithiau cynigion mawr yn ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr, gwastraff a dŵr gwastraff, ac yn cynnwys cyfleoedd i bobl leisio eu barn cyn i benderfyniad gael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cyflawni swyddogaethau penodol yn ymwneud â chynllunio seilwaith cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Statws y Nodyn Cyngor hwn

Mae profiad hyd yma wedi dangos bod datblygwyr ac eraill yn croesawu cyngor manwl ar nifer o agweddau ar broses Deddf 2008. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn rhan o gyfres o nodiadau cyngor o'r fath a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Nid oes ganddo statws statudol.

Mae fersiwn hon y Nodyn Cyngor hwn yn disodli pob fersiwn flaenorol. Mae hefyd yn cynnwys cyngor a gynhwyswyd yn flaenorol ym mharagraffau 25 i 27 Nodyn Cyfarwyddyd 1 y Comisiwn Cynllunio Seilwaith.



Cyflwyniad

Mae'r nodyn cyngor hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer datblygwyr ac awdurdodau lleol, ond mae hefyd yn berthnasol i unrhyw ymgynghorai a hoffai wybod sut yr adroddir ar ymgynghoriad cyn-ymgeisio'r datblygwr. Mae'n ceisio rhoi cyngor ar fformat a chynnwys yr adroddiad ymgynghori. Croesawn adborth ynglŷn â defnyddioldeb y nodyn cyngor hwn a cheisiwn ei adolygu a'i ailgyhoeddi wrth i wersi ychwanegol gael eu dysgu yn sgil gweithredu'r gyfundrefn caniatâd datblygu.

Mae'n rhaid i gais gynnwys adroddiad ymgynghori'r ymgeisydd a baratowyd o dan adran 37 Deddf 2008. Dylai'r adroddiad hwnnw ddwyn ynghyd:

- a. gwybodaeth am yr ymgynghoriad statudol, cyhoeddusrwydd, terfynau amser a osodwyd, a gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned a gynhaliwyd gan yr ymgeisydd yn ystod y cam cyn-ymgeisio o dan adrannau 42, 47 a 48;
- b. Crynodeb o'r ymatebion perthnasol i feysydd unigol yr ymgynghoriad; a'r
- c. Ystyriaeth a roddwyd i'r ymatebion wrth ddatblygu'r cais o'r cynnig i'r ffurf derfynol, fel sy'n ofynnol gan a49(2).

Sylwer: Mae'r nodyn cyngor hwn yn cyfeirio at atodiad y gellir ei weld yn y Porth Seilwaith Cenedlaethol (<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/>).

Yr adroddiad ymgynghori yw diwedd y tri maes ymgynghori a chyhoeddusrwydd unigol a amlinellir yn a37. Prif ddiben yr adroddiad yw cyfleu a myfyrio ar yr holl ymatebion a dderbyniwyd gan y tri grŵp cyn-ymgeisio penodol hyn ac esbonio sut mae'r datblygwr

wedi cyflawni ei ddyletswydd (a49 y Ddeddf) i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd wrth baratoi'r cais. Dylai'r ymgynghoriad ei hun gael ei gynnal mewn ffordd sy'n caniatáu ar gyfer cyflwyno adroddiad cynhwysfawr a manwl ar y cam ymgeisio. Gall yr adroddiad hefyd gyfleu ymgynghoriadau anstatudol neu 'anffurfiol' sy'n digwydd y tu allan i ofynion Deddf Cynllunio 2008, fel bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddarlun cyflawn o'r holl weithgarwch ymgynghori sy'n berthnasol i brosiect penodol.

Lle na ddilynwyd cyfarwyddyd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol o ran yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio, yr adroddiad ymgynghori yw'r lle mwyaf priodol i esbonio hyn fel arfer. Mae'n hollbwysig bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn deall y rhesymau dros beidio â dilyn cyfarwyddyd cyhoeddedig.

Fformat a chynnwys yr adroddiad

Bydd fformat a chynnwys yr adroddiad ymgynghori'n dibynnu i raddau helaeth ar y fethodoleg ymgynghori a ddefnyddiwyd gan y datblygwr, faint o ymatebion a dderbyniwyd ac ehangder daearyddol y cynnig. O ystyried amrywiaeth y prosiectau sy'n dod o fewn cyfundrefn Deddf 2008, nid yw'n briodol nac yn bosibl i'r Arolygiaeth Gynllunio gyhoeddi cyngor rhagnodol ar fformat a chynnwys adroddiadau ymgynghori sy'n berthnasol i bob prosiect. Felly, nid yw'r cyngor hwn yn rhagnodol nac yn hollgynhwysol; yn hytrach, mae'n ceisio canolbwyntio ar agweddau penodol a amlygwyd fel gwersi a ddysgwyd o'r ceisiadau cyntaf a gyflwynwyd. Dylai unrhyw ymgeisydd anelu at baratoi adroddiad ac iddo ffocws pendant sydd mor gryno â phosibl. Mae'r cyngor canlynol yn amlygu rhai camau y gall ymgeiswyr eu cymryd i gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol ar y cam derbyn.



Testun esboniadol

Dylai'r testun esboniadol amlinellu'r cyd-destun a rhoi trosolwg a naratif o'r cam cyn-ymgeisio cyfan fel y bo'n berthnasol i'r prosiect penodol. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys canllaw cyfeirio cyflym ar ffurf pwyntiau bwled, sy'n crynhoi'r holl weithgarwch ymgynghori mewn trefn gronolegol, yn agos at ddechrau'r adroddiad. Dylai'r adran hon ddiffinio'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio cyfan ac esbonio'r berthynas rhwng unrhyw gam dewisiadau strategol cychwynnol, unrhyw ymgynghoriad anffurfiol dilynol a gynhaliwyd, a'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd o dan Ddeddf 2008.

Mewn llawer o achosion, bydd prosiectau seilwaith cenedlaethol wedi esblygu dros gyfnod hir, ac efallai na fydd ffurfiau blaenorol arnynt wedi cael eu gwireddu am amryw resymau. Mewn achosion o'r fath, fe allai fod yn ddefnyddiol rhoi'r cyd-destun hanesyddol ehangach hwn. Byddai disgrifiad cryno o unrhyw weithgarwch ymgynghori hanesyddol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sydd ar gael am raddfa a natur yr ymateb bryd hynny, o ddiddordeb hefyd. Nid oes angen rhoi hanes cynllunio manwl o'r safle yn yr adroddiad hwn.

Ymgynghori â'r ymgynghoreion rhagnodedig (a42)


Mae hyn yn cynnwys cyrff statudol rhagnodedig, awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy o dan a43 y Ddeddf a'r rhai hynny â buddiant yn y tir yr ymgynghorwyd â hwy o dan a44 y Ddeddf. Dylai'r grwpiau unigol hyn o ymgynghoreion rhagnodedig gael eu hamlygu'n eglur.

Dylai'r ymgeisydd gynnwys rhestr lawn o'r ymgynghoreion rhagnodedig yn rhan o'r adroddiad ymgynghori. Os ymgynghorwyd â'r ymgynghoreion rhagnodedig sawl gwaith, ar adegau gwahanol o'r ymgynghoriad o bosibl, dylid esbonio hyn. Os yw rhestr yr ymgeisydd o ymgynghoreion rhagnodedig yn amrywio mewn unrhyw ffordd o'r rhestr sefydliadau a roddir yn atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009, dylid cyfiawnhau hyn yn benodol.

Dylid dilyn y rhestr sefydliadau a roddir yn Atodlen 1 Rheoliadau 2009 o ran y drefn y cyflwynir yr ymgynghoreion.

Dylid cynnwys disgrifiad byr o sut y cymhwyswyd a43 y Ddeddf i amlygu'r awdurdodau lleol perthnasol. Gellid ategu hyn gyda map sy'n dangos y safle a ffiniau'r awdurdodau lleol perthnasol.

Mae'n bwysig bod y rhai hynny sydd â buddiant yn y tir yr ymgynghorwyd â hwy o dan a44 y Ddeddf yn cael eu hamlygu fel grŵp penodol yn ymgynghoriad ehangach a42. Mae ymgynghoreion a44 yn cynnwys y rhai hynny y byddai eu tir yn destun caffael gorfodol yn rhan o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, y rhai hynny a chanddynt hawliad perthnasol o bosibl, a'r rhai hynny y gallai'r datblygiad effeithio ar eu tir.



Pan fydd caffael gorfodol yn rhan o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft, dylai'r ymgynghoreion sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y llyfr cyfeirio at ddibenion caffael gorfodol gael eu hamlygu yn y rhestr gyfunol o ymgynghoreion rhagnodedig.

Datganiad ymgynghori â'r gymuned (a47)

Byddai'n ddefnyddiol rhoi crynodeb o'r sail resymegol ar gyfer methodoleg y datganiad ymgynghori â'r gymuned er mwyn helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i ddeall yr ymgynghoriad cymunedol a darparu cyddestun ar gyfer ystyried sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

Mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â phroses paratoi'r datganiad ymgynghori â'r gymuned. Dylid cyflwyno tystiolaeth yn rhan o'r adroddiad ymgynghori sy'n dangos pa awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â chynnwys y datganiad ymgynghori â'r gymuned drafft; beth oedd sylwadau'r awdurdodau lleol; cadarnhad y rhoddwyd 28 niwrnod iddynt gyflwyno eu sylwadau a disgrifiad o sut yr ystyriodd yr ymgeisydd sylwadau'r awdurdodau lleol. Dylid darparu copïau o'r datganiad ymgynghori â'r gymuned fel yr ymddangosodd yn y wasg leol ynghyd â chadarnhad o ba bapurau newydd lleol y'i cyhoeddwyd ynddynt a phryd.

Os paratowyd mwy nag un datganiad ymgynghori â'r gymuned ar gyfer prosiect, er enghraifft os diweddarwyd datganiad o'r fath unwaith neu fwy, dylai'r datganiad(au) ymgynghori â'r gymuned diwygiedig gael eu cynnwys ynghyd ag esboniad ynghylch pam y'u hadolygwyd a'u diweddarwyd.

Os oedd unrhyw anghysondebau â'r datganiad ymgynghori â'r gymuned, er

enghraifft os cynhaliwyd gweithgareddau ychwanegol na chynhwyswyd yn y datganiad(au) ymgynghori â'r gymuneddylid esbonio hyn yn eglur a'i gyfiawnhau. Byddai'n ddefnyddiol rhoi safbwyntiau'r awdurdodau lleol perthnasol ynglŷn ag unrhyw newidiadau a wnaed i'r fethodoleg ymgynghori nad ymdriniwyd â hwy trwy gyfrwng adolygiad o'r datganiad ymgynghori â'r gymuned. Fel arfer, mae'n well ymdrin â'r broses datganiad ymgynghori â'r gymuned fel adran ar wahân yn yr adroddiad ymgynghori.

Cyhoeddusrwydd statudol (a48)


Dylai'r adroddiad gynnwys copi o'r hysbysiad a48 fel yr ymddangosodd yn y papurau newydd lleol a chenedlaethol, ynghyd â disgrifiad o ble y cyhoeddwyd yr hysbysiad a chadarnhad o'r cyfnod a roddwyd ar gyfer ymateb. Dylai ymgeiswyr hefyd gadarnhau bod yr hysbysiad a48 wedi cael ei anfon at yr ymgynghoreion rhagnodedig yr un pryd ag y cyhoeddwyd yr hysbysiad. Byddai disgrifiad o'r deunydd ymgynghori a ddefnyddiwyd a sut oedd yr ymgynghoreion rhagnodedig yn gallu cael gafael arno yn ddefnyddiol hefyd.

Mae'n well ymdrin â chyhoeddusrwydd a48 fel adran ar wahân yn yr adroddiad.

Ymgynghoriad 'anffurfiol' anstatudol

Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr wedi cynnal ymgynghoriad anstatudol, er enghraifft, ymgynghoriad lefel uchel â chyrrff statudol wrth amlygu dewisiadau a chyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol o dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Dylai unrhyw ymgynghoriad na chynhaliwyd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf gael ei nodi'n eglur ac ar wahân i'r ymgynghoriad statudol yn yr adroddiad.

Nid yw hyn yn golygu bod ymgynghoriad anffurfiol yn llai pwysig nag ymgynghoriad



a gynhaliwyd o dan y Ddeddf o reidrwydd, ond bydd amlygu ymgynghoriad statudol ac anstatudol ar wahân o gymorth wrth bennu p'un a gydymffurfiwyd â'r gofynion statudol.

Ymgynghoriad Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhan o'r gyfundrefn AEA ar wahân i hwnnw sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Gallai ymgeiswyr ddymuno tynnu sylw at ymatebion i ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan y broses AEA, ond dylai unrhyw gyfeiriad at yr ymgynghoriad hwn gael ei gadw ar wahân i'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio 2008.

Ymdrin ag ymatebion i'r ymgynghoriad statudol

Dull a arweinir gan faterion

Os cafwyd llawer iawn o ymatebion, fe allai fod yn briodol eu casglu ynghyd o dan brif faterion. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid gofalu nad yw'r ymatebion yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gamarweiniol neu allan o gyd-destun safbwyntiau gwreiddiol yr ymgynghorai. Os defnyddiwyd y dull hwn, dylid nodi ac esbonio hynny'n eglur ym mhrif ran yr adroddiad, gan gynnwys unrhyw fesurau diogelu a chroesgyfeirio a gynhaliwyd i sicrhau bod yr ymatebion yn cael eu casglu ynghyd yn briodol.

Crynodeb o'r ymatebion

Dylid rhoi rhestr o'r ymatebion unigol a dderbyniwyd a'u categoreiddio mewn ffordd briodol.

Gall crynodeb da o ymatebion arbed llawer o destun esboniadol. Argymhellwn fod ymgeiswyr yn casglu ymatebion ynghyd o

dan y tri grŵp ymgynghori fel a ganlyn:

- Ymgynghoreion rhagnodedig a42 (gan gynnwys a43 ac a44)
- Ymgynghoreion cymunedol a47
- Ymatebion a48 i gyhoeddusrwydd statudol.

Dylai'r rhestr hefyd wahaniaethu o fewn y categorïau hynny trwy ddiolli'r ymatebion yn ôl p'un a ydynt yn cynnwys sylwadau sydd wedi arwain at newidiadau i faterion fel lleoliad, llwybr, dyluniad, ffurf neu raddfa'r cynllun ei hun, neu fesurau lliniaru neu wneud iawn a gynigiwyd, neu heb arwain at newid.

Dylid hefyd gynnwys crynodeb o'r ymatebion yn ôl categori priodol ynghyd ag esboniad eglur o'r rhesymau pam nad oedd ymatebion wedi arwain at newid, gan gynnwys lle y derbyniwyd ymatebion ar ôl y terfynau amser a osodwyd gan yr ymgeisydd.

Er y dylai ymgeiswyr geisio datrys cynifer o feysydd anghydfod a phryder â phosibl gyda'r ymgynghoreion, cydnabyddir na fydd hyn bob amser yn bosibl. Lle na ddaethpwyd i gytundeb, mae'n bwysig bod y rhesymau pam yn cael eu nodi'n eglur yn y crynodeb.

Mae'r rhestr yn Atodiad A yn ddangosol, ond mae'n amlinellu dull a fyddai'n ddefnyddiol i'r Arolygiaeth Gynllunio

Dull fesul cam

Lle y cynhaliwyd yr ymgynghoriad fesul cam, gellir adlewyrchu hyn yn strwythur yr adroddiad a chrynodeb yr ymatebion. Er enghraifft, fe allai fod yn syniad da cynnwys dalen sylwebaeth a chrynodeb ymatebion ar wahân ar gyfer pob cam o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.



Cyfrifoldebau awdurdodau lleol

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn i awdurdodau lleol perthnasol roi datganiad digonolrwydd ymgynghoriad wrth gyflwyno'r cais. O ystyried y cyfnod 28 niwrnod byr a ganiateir ar gyfer y cam derbyn, byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe byddai ymgeiswyr yn rhoi'r adroddiad ymgynghori i awdurdodau lleol yn gynnar er mwyn llywio eu safbwyntiau. Fel arfer, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn pennu terfyn amser 14 diwrnod i dderbyn y datganiadau digonolrwydd y gofynnwyd amdanynt.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ceisio rhoi cyngor i awdurdodau lleol ynglŷn â pharatoi ar gyfer cyflwyno'r cais, a bydd yn annog ymgeiswyr i rannu fersiynau drafft o'r adroddiad ymgynghori ag awdurdodau lleol cyn gynted â phosibl. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau bod yr adroddiad ymgynghori a gyflwynwyd ar gael i awdurdodau lleol cyn gynted â phosibl trwy gyfrwng dolen i'r we.

Rôl yr awdurdod lleol yw rhoi datganiad ynglŷn â ph'un a yw'r ymgeisydd wedi cydymffurfio ag adrannau 42, 47 a 48 y Ddeddf. Nid yw'n briodol defnyddio'r datganiad digonolrwydd i ddadlau ynghylch teilyngdod y cynllun, a bydd awdurdodau lleol ac eraill yn cael digon o gyfle i godi'r materion hyn yn eu hadroddiad ar yr effaith leol a / neu unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir os derbynir y cais i symud ymlaen i'r cam archwilio.

Cais am ymatebion

O ystyried y raddfa amser statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi penderfyniad yn ystod y cam derbyn (28 niwrnod), mae'n bwysig bod yr adroddiad ymgynghori'n eglur a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gweld yn gyflym p'un a yw ymgeiswyr wedi bodloni'r holl ofynion statudol. Os oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â hyn, mae'n bosibl y gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu copi o'r holl ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd yn ystod y cam cyn-ymgeisio. Byddai ymgeiswyr yn ddoeth i baratoi ar gyfer hyn sut bynnag, o ystyried y raddfa amser dynn yn ystod y cam derbyn. Ni ellir gohirio nac ymestyn y cam derbyn tra disgwylir i'r ymatebion ymgynghori gael eu cyflwyno.

Diogelu data

Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y cais, fe'i cyhoeddir ar y Porth Seilwaith Cenedlaethol (<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/>) a bydd copïau adneuo ar gael i'r cyhoedd. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad ymgynghori'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a bod cyfeiriadau a gwybodaeth gyswllt arall unigolion preifat yn cael eu trin yn briodol yng nghyd-destun y broses statudol hon. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad ymgynghori wedi cael ei olygu'n llawn a'i fod yn addas i'r cyhoedd ei weld cyn ei gyflwyno.

Gwybodaeth ychwanegol

Yr Arolygiaeth Gynllunio, Cyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol, Temple Quay House, Temple Quay, Bryste BS1 6PN

E-bost: enquiries@infrastructure.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 0303 444 5000

Gwefan: <http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

Ailgyhoeddwyd y nodyn cyngor hwn ym mis Mawrth 2012 gyda newidiadau i adlewyrchu'r ffaith bod y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol wedi cael ei ddileu a bod ei waith wedi cael ei drosglwyddo i'r Arolygiaeth Gynllunio o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011